Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# **Gwaith ymgysylltu:**
# Diweddariad am y sector cynradd – hydref 2020

Rhagfyr 2020



# Gwaith ymgysylltu: Diweddariad am y sector cynradd – hydref 2020

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau o'r galwadau ffôn ymgysylltu a wnaed i 166 o ysgolion cynradd rhwng diwedd mis Medi a rhan olaf mis Hydref 2020. Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar y wybodaeth a drafodwyd yn ystod cyfarfodydd o bell gyda phenaethiaid ac uwch arweinwyr, yn ogystal â chanfyddiadau o arolygon rhanddeiliaid. Y prif ffocws ar gyfer pob trafodaeth oedd lles disgyblion, staff ac uwch arweinwyr a naill ai sut roedd ysgolion yn hyrwyddo dysgu neu'n darparu cymorth ar gyfer eu dysgwyr sy'n agored i niwed. Mae cyfrannau'n ymwneud â'r sampl o ysgolion yr ydym wedi bod mewn cysylltiad â nhw.

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei lywio gan dystiolaeth o'r ffynonellau canlynol:

- Cyfarfodydd o bell gyda phenaethiaid ac/neu uwch arweinwyr sy'n gyfrifol am feysydd penodol
- Canfyddiadau o arolygon ar gyfer disgyblion, rhieni, llywodraethwyr, arweinwyr ysgol, athrawon a staff cymorth

**Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.**

## Cynnwys


Prif ganfyddiadau ... 1
Lles disgyblion, staff a phenaethiaid ... 1
Hyrwyddo dysgu ... 1
Cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed ... 2
Lles disgyblion, staff a phenaethiaid ... 4
Lles disgyblion ... 4
Lles staff ... 5
Lles penaethiaid ... 6
Hyrwyddo dysgu ... 6
Cynllunio ar gyfer cynnydd ... 6
Dysgu o fis Medi ... 7
Dysgu o bell a dysgu cyfunol ... 8
Dysgu proffesiynol ... 9
Arferion y cyfnod sylfaen ... 10
Y Gymraeg ... 11
Cymorth ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed ... 12
Hyrwyddo lles ... 12
Y cwricwlwm a dysgu ... 12
Iechyd a diogelwch ... 13

Dysgu proffesiynol ..................... 14
Gwasanaethau arbenigol ..................... 15
Prosesau statudol ..................... 16
Cyllid recriwtio, adfer a chodi safonau (RRRS) ..................... 16
Atodiad ..................... 18

## Prif ganfyddiadau

### Lles disgyblion, staff a phenaethiaid

1 Cefnogi lles disgyblion oedd y flaenoriaeth i bron pob ysgol wrth iddynt ddychwelyd ym mis Medi. Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn hapus i ddychwelyd i'r ysgol, a chyfeiriodd llawer o benaethiaid at awydd nodedig i ddysgu ac awch am addysg 'normal', yn enwedig yn y dechrau'n deg yn nhymor yr hydref.

2 Mae cefnogi lles staff wedi bod yn flaenoriaeth i uwch arweinwyr a phenaethiaid yn ystod tymor yr hydref. Yn aml, pwysleisiodd arweinwyr fod staff yn gweithio â gwydnwch ac ymroddiad gwych i gefnogi anghenion disgyblion. Adroddodd llawer o ysgolion am lefelau uwch o or-bryder ymhlith staff wrth iddynt weithio i ddiwallu anghenion cymdeithasol ac academaidd disgyblion ochr yn ochr â chyfrifoldeb am roi gweithdrefnau iechyd a diogelwch llym ar waith.

3 Dywedodd penaethiaid fod graddau digynsail o bwysau ar eu lles personol wrth iddynt reoli sefyllfaoedd sy'n newid yn gyflym o fewn cymunedau'r ysgolion. Yn aml, maent wedi amlygu'r cymorth cryf a ddarparwyd gan awdurdodau lleol trwy gydol y pandemig hwn i gefnogi eu lles a'u rolau.

### Hyrwyddo dysgu

4 Adolygodd llawer o ysgolion eu cwricwlwm ar gyfer tymor yr hydref a chreu cyfleoedd dysgu i ddisgyblion drafod eu teimladau, rhannu profiadau ac ailadeiladu cyfeillgarwch. Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn darparu cyfleoedd cynyddol ar gyfer ymarfer corff a dysgu yn yr awyr agored.

5 Yn aml, roedd ysgolion yn ystyried ffyrdd o ddatblygu eu cymorth ar gyfer lles disgyblion yng nghyd-destun eu paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Roedd hyn yn cynnwys canolbwyntio ar y Pedwar Diben a gwella medrau gwydnwch a chydweithio disgyblion, yn ogystal â datblygu eu hunanymwybyddiaeth fel dysgwyr. Roedd ysgolion a oedd wedi sefydlu a strwythuro dulliau o ddatblygu'r priodoleddau hyn yn teimlo y gallent addasu eu darpariaeth yn effeithiol.

6 Yn ystod hanner cyntaf tymor yr hydref, bu'r rhan fwyaf o ysgolion yn asesu'r cynnydd roedd disgyblion wedi'i wneud er mis Mawrth 2020 mewn modd sensitif. Defnyddion nhw ddulliau gwahanol, gan gynnwys arsylwadau anffurfiol athrawon, profion safonedig ac offeryn asesu personol Llywodraeth Cymru.

7 Roedd lleiafrif o benaethiaid o'r farn fod disgyblion yn gwneud cynnydd addas ar y cyfan, pan oedd teuluoedd wedi ymgysylltu'n rheolaidd â dysgu o bell. Fodd bynnag, roedd mwyafrif ohonynt yn teimlo, yn gyffredinol, fod tystiolaeth o ddysgu disgyblion yn dangos dirywiad yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). O ganlyniad, addasodd bron pob ysgol eu cwricwlwm i adnewyddu ac ailedrych ar fedrau disgyblion mewn llythrennedd, rhifedd a TGCh. Mewn llawer o achosion, defnyddiodd ysgolion ddulliau thematig i ddatblygu'r medrau sylfaenol hyn ac ailedrych arnynt mewn cyd-destunau diddorol.

8 Mynegodd llawer o benaethiaid bryderon ynghylch medrau siarad a gwrando, a medrau cymdeithasol disgyblion iau neu ddisgyblion sy'n agored i niwed. Yn aml,

roedd ganddynt llai o allu i ganolbwyntio, gwrando ar ddisgyblion eraill neu gydweithio trwy gymryd eu tro a rhannu.

9 Nododd y rhan fwyaf o ysgolion sy’n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg fod dirywiad yn hyder llawer o ddisgyblion o gartrefi di-Gymraeg wrth siarad Cymraeg. Roedd hyn yn aml yn fwy amlwg ymhlith dysgwyr iau. Mae llawer o ysgolion wedi addasu eu cwricwlwm i ddarparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ymarfer y medrau hyn. Mae llawer ohonynt wedi gweithio gydag asiantaethau a phartneriaid allanol i greu pecynnau cymorth ar gyfer disgyblion unigol a’u teuluoedd.

10 Nododd llawer o benaethiaid fod disgyblion a oedd yn ei chael yn anodd ymgysylltu’n effeithiol â dysgu gartref, yn aml yn meddu ar fedrau digidol gwan a oedd yn eu rhwystro rhag dysgu. I oresgyn hyn, mae llawer o ysgolion wedi integreiddio’r defnydd o offer digidol yn fwy rheolaidd yn arfer yr ystafell ddosbarth i baratoi disgyblion ar gyfer unrhyw gyfnodau pellach o ddysgu o bell.

11 Mae llawer o arweinwyr wedi dechrau meddwl yn strategol ynglŷn â sut i gefnogi a gwella medrau disgyblion i ddysgu’n fwy effeithiol o bell, pe bai’r amgylchiadau’n codi eto. Maent wedi dechrau cynllunio cyfuniad o gyfleoedd dysgu wyneb yn wyneb ac ar-lein ar gyfer disgyblion yn yr ysgol a gartref.

12 Yn y rhan fwyaf o achosion, bu’n rhaid i ysgolion addasu eu haddysgu i adlewyrchu’r cyfyngiadau ymarferol a roddir ar ystafelloedd dosbarth. Nododd ychydig o ysgolion fod cyflwyno cwricwlwm eang yn heriol o dan y canllawiau presennol, ac y bu’n rhaid iddynt gyfyngu ar brofiadau dysgu, fel canu, ymweliadau a thasgau mwy ymarferol.

13 Mae’r rhan fwyaf o arweinwyr wedi datblygu dulliau o leihau effaith cyfyngiadau COVID-19 ar arferion y cyfnod sylfaen. Mae llawer o ysgolion wedi addasu eu darpariaeth awyr agored ac wedi datblygu cyfundrefnau glanhau llym i sicrhau bod disgyblion yn gallu cwblhau tasgau ymarferol yn ddiogel o hyd. Amlygodd arweinwyr bwysigrwydd cynnal addysgeg y cyfnod sylfaen, sy’n cynnwys dysgu gweithredol a dysgu trwy brofiad, ble bynnag y bo modd.

14 Mae llawer o ysgolion wedi defnyddio technoleg i alluogi staff i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau dysgu proffesiynol ar-lein.

### Cefnogi dysgwyr sy’n agored i niwed

15 Mae bron pob ysgol wedi rhoi pwyslais penodol ar gefnogi teuluoedd â disgyblion sy’n agored i niwed. Mae llawer ohonynt wedi cryfhau eu gweithdrefnau cyfathrebu i ddeall anghenion y disgyblion hyn yn well, a dod o hyd i ffyrdd o’u cefnogi nhw a’u teuluoedd.

16 Mae bron pob un o’r arweinwyr wedi gweithio’n agos â’u hawdurdodau lleol i wneud yn siŵr fod eu hysgolion yn parhau i fod yn lleoedd diogel a chynhwysol ar gyfer eu disgyblion sy’n agored i niwed. Dywedodd ysgolion fod staff cymorth wedi gweithio’n ddiwyd i sicrhau bod arferion diogel ar waith.

17 Yn gyffredinol, bu ysgolion yn gweithio’n agos ag asiantaethau partner, gan gynnwys seicolegwyr addysg a thimau cymorth ymddygiad i sicrhau cymorth ar gyfer disgyblion sy’n agored i niwed. Mae llawer o arweinwyr wedi elwa ar y modd y mae gweithio mewn clystyrau wedi eu helpu i gefnogi disgyblion ag anghenion addysgol

arbennig. Er enghraifft, ffurfiodd cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol gwahanol ysgolion berthnasoedd cefnogol ymhlith ei gilydd i rannu arbenigedd a darparu cymorth effeithiol.

18 Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr wedi gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod prosesau statudol ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed yn parhau o bell dros y cyfnod clo. Dywedodd mwyafrif ohonynt fod cynnydd wedi bod mewn achosion amddiffyn plant yn ystod y cyfnod hwn. Mae ysgolion yn gwerthfawrogi gwaith yr heddlu a gwasanaethau eraill o ran eu hysbysu os yw plant wedi bod yn dyst i drais domestig, er mwyn i staff allu cynnig cymorth iddynt.

19 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi dechrau cyflogi aelodau ychwanegol o staff neu wedi cynyddu oriau staff presennol gan ddefnyddio cyllid 'recriwtio, adfer a chodi safonau'. Mae llawer ohonynt yn defnyddio'r adnodd hwn i fynd i'r afael â bylchau ym medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion neu i roi cymorth iddynt ddelio â'u hemosiynau. Mae ychydig o ysgolion wedi blaenoriaethu cymorth i ddatblygu medrau disgyblion sy'n agored i niwed i ddysgu'n annibynnol.

## Lles disgyblion, staff a phenaethiaid

### Lles disgyblion

Mae COVID-19 wedi arwain at gyfnod sylweddol o darfu i ddisgyblion ledled Cymru. Roedd amser oddi wrth gyfoedion, ffrindiau a 'gofod diogel' yr ysgol, yn ogystal ag ansicrwydd parhaus, i gyd yn ffactorau a ystyriwyd gan ysgolion wrth gynllunio eu darpariaeth ar gyfer mis Medi.

Ar gyfer bron pob ysgol, cefnogi lles disgyblion oedd y flaenoriaeth wrth iddynt ddychwelyd ym mis Medi. Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn hapus i ddychwelyd i'r ysgol, a chyfeiriodd llawer o benaethiaid at awydd nodedig i ddysgu ac awch am flas o addysg 'normal', yn enwedig ar ddechrau tymor yr hydref. Pan ail-agorodd ysgolion ym mis Medi, dywedodd bron pob arweinydd fod lefelau presenoldeb islaw'r hyn sy'n arferol. Yn aml, roedd hyn am fod ychydig o ddisgyblion naill ai'n ynysu neu'n aros am ganlyniadau prawf COVID-19.

I'r rhan fwyaf o ysgolion, er y bu'n heriol mynd i'r afael â materion yn gysylltiedig â COVID-19, mae hefyd yn golygu adeiladu ar arferion presennol i gefnogi lles disgyblion. Yn aml, roedd yr ysgolion hyn yn defnyddio gweithdrefnau asesu presennol i bennu lles disgyblion a nodi meysydd i'w gwella. Cyflwynodd ysgolion eraill brosesau newydd a oedd yn galluogi staff i amlygu pryderon ynghylch lles disgyblion unigol, ac i ddisgyblion fynegi eu gofidiau a'u pryderon. I rai disgyblion, yn enwedig y rhai ieuengaf, mae'r ysgol yn darparu amgylchedd sefydlog a diogel lle mae staff yn modelu medrau cymdeithasol pwysig, fel gwrando ar bobl eraill a chymryd eich tro. Mewn llawer o achosion, mae ysgolion wedi sôn am ddirywiad yn y medrau hyn.

Sefydlodd un ysgol system gyfeirio i helpu staff i gyfleu eu pryderon am gynnydd a lles disgyblion. Roedd hyn yn cynnwys dalen syml i staff ei llenwi i nodi'r cymorth sydd ei angen ar ddisgyblion, er enghraifft materion yn gysylltiedig â phrofedigaeth yn y teulu neu bresenoldeb anghyson. Cynhaliwyd cyfarfodydd wythnosol rhwng y pennaeth, yr arweinydd lles a'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol i ystyried y rhain, adolygu'r cymorth a roddwyd ar waith a gwneud gwelliannau lle bo angen. Hefyd, cyflwynodd yr ysgol system 'blychau gofidiau' i ddisgyblion rannu eu pryderon. Roedd athrawon dosbarth yn adolygu'r rhain bob dydd ac yn eu trosglwyddo i'r Tîm Lles lle roedd ganddynt bryderon.

Disgrifiodd ychydig o arweinwyr yr wythnosau cyntaf ym mis Medi fel cyfnod 'dechrau'n raddol'. Roedd hyn yn gyfle i staff gyflwyno disgyblion i'w harferion newydd. Adolygodd llawer o ysgolion eu cwricwlwm ar gyfer tymor yr hydref i sicrhau cyfleoedd i fynd i'r afael â materion lles. Yn aml, roedd ysgolion yn ystyried ffyrdd o ddatblygu eu cymorth i sicrhau lles disgyblion yng nghyd-destun eu paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Roedd hyn yn cynnwys canolbwyntio ar y Pedwar Diben a gwella medrau gwydnwch a chydweithio disgyblion, yn ogystal â datblygu eu hunanymwybyddiaeth fel dysgwyr. Mae hyn yn helpu disgyblion i gyfeirio eu dysgu eu hunain yn ystod cyfnodau pan na allant fynychu'r ysgol, ac ymdopi'n well â gor-bryder yn deillio o COVID-19. Mewn ychydig o achosion, bu ysgolion yn cydweithio ar draws eu clystyrau i greu cwricwlwm lles tymor byr, a chreodd rhai ohonynt

gwricwlwm adfer penodol yn canolbwyntio ar ddatblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Yn aml, roedd y cynlluniau'n ymgorffori cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio, gofyn cwestiynau a dysgu mwy am effeithiau COVID-19 a'r rhesymu y tu ôl i'r rheolau a'r rheoliadau a ddyfeisiwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi neilltuo mwy o amser i ddisgyblion drafod eu teimladau ac unrhyw or-bryderon a allai fod ganddynt. Mae staff wedi cyflwyno gwahanol ddulliau ar gyfer tawelu disgyblion, gan eu helpu i ganolbwyntio ac ymlacio. Disgrifiodd llawer o benaethiaid fod angen i ddisgyblion weithio ar ailadeiladu cyfeillgarwch ac ail-greu perthnasoedd cadarnhaol. Er enghraifft, bu un ysgol yn gweithio gydag elusen genedlaethol a oedd yn cyflwyno sesiynau rhithwir ynghylch 'beth yw perthynas iach' a 'sut i ddatblygu perthynas gadarnhaol'. Dewisodd un ysgol y thema 'perthyn' fel sylfaen ar gyfer gwaith yr holl ddisgyblion am y tymor, a dewisodd ysgol arall fynd i'r afael â'r cwestiwn 'Sut gallwn ni wneud y byd yn lle gwell?' Ail-ymgysylltodd ychydig o ysgolion â dulliau strwythuredig o ddatblygu dyfalbarhad a gwydnwch a oedd yn gonglfaen eu darpariaeth bresennol.

Cyn COVID-19, roedd un ysgol wedi mabwysiadu dull ysgol gyfan systematig o ddatblygu gwydnwch, hyder a gallu disgyblion i oresgyn heriau. Addasodd y staff gynlluniau gwersi ar gyfer mis Medi i ailedrych ar brif egwyddorion y dull hwn. Helpodd hyn ddisgyblion i ymgyfarwyddo â threfn gyfarwydd, tra'n darparu strwythur cyfarwydd iddynt ar gyfer goresgyn problemau a datrys gwrthdaro. Er enghraifft, dysgodd disgyblion sut gallai her anodd wneud iddynt deimlo'n ofidus i ddechrau. Fe wnaethant drafod y cyfleoedd dysgu sy'n gallu codi o heriau o'r fath a dyfeisio strategaethau ar gyfer goresgyn unrhyw rwystredigaethau y gallent eu teimlo.

Mae rhai ysgolion wedi addasu eu hamserlenni i gefnogi iechyd cymdeithasol a chorfforol disgyblion yn well. Cynyddodd y rhan fwyaf o ysgolion eu defnydd o ardaloedd awyr agored, er enghraifft trwy ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau meithrin tîm neu ddatrys problemau. Bu ychydig iawn o ysgolion yn gweithio gyda phartneriaid allanol i gyfoethogi eu cwricwlwm, er enghraifft i ddarparu gweithgareddau antur awyr agored, adeiladu tai crwn Celtaidd, neu weithio fel tîm i greu strwythurau helygen.

## Lles staff

Mae uwch arweinwyr a phenaethiaid wedi rhoi blaenoriaeth i gefnogi lles staff yn ystod tymor yr hydref. Yn aml, pwysleisiodd arweinwyr fod staff yn gweithio â llawer o wydnwch ac ymroddiad i gefnogi anghenion disgyblion. Dywedodd llawer o ysgolion fod lefelau uwch o or-bryder ymhlith staff wrth iddynt weithio i ddiwallu anghenion cymdeithasol ac academaidd disgyblion, ochr yn ochr â chyfrifoldeb am roi gweithdrefnau iechyd a diogelwch llym ar waith. Mae pob un o'r staff wedi bod yn gweithio dan bwysau mawr wrth iddynt ddelio â goblygiadau COVID-19. Mewn llawer o achosion, nid yw staff wedi gallu cymryd egwylion rheolaidd yn ystod y dydd gan fod angen iddynt oruchwylio disgyblion o fewn eu 'swigen'.

Mewn llawer o ysgolion, mae uwch arweinwyr wedi rhoi ystyriaeth ofalus iawn i faich gwaith staff, er enghraifft trwy leihau hyd cyfarfodydd staff. Mae llawer ohonynt wedi llunio amserlen hyblyg, trwy sicrhau bod staff llanw ar gael o fewn swigod i alluogi staff i adael ar fyr rybudd os bydd angen. Yn yr un modd, mae llawer o arweinwyr

wedi cyflwyno mwy o hyblygrwydd i athrawon gymryd eu hamser cynllunio, paratoi ac asesu er mwyn eu galluogi i weithio gartref a chwblhau tasgau ar adeg sy'n gweddu orau i'w hanghenion. Mae llawer o benaethiaid yn parhau i fynegi pryderon am les athrawon, sydd wedi'u cysylltu'n benodol â'r disgwyliad eu bod ar gael yn gyson i ymateb i ohebiaeth gan rieni.

### Lles penaethiaid

Dywedodd penaethiaid fod graddau digynsail o bwysau ar eu lles personol wrth iddynt reoli sefyllfaoedd sy'n newid yn gyflym yng nghymunedau eu hysgolion. Roedd yr her a wynebai penaethiaid i gefnogi dysgu a lles disgyblion tra'n sicrhau diogelwch cymuned yr ysgol yn ffynhonnell gor-bryder sylweddol. Bu angen i benaethiaid ymateb yn gyflym i newidiadau mewn polisi ac arweiniad cenedlaethol. Fodd bynnag, yn aml, daethant yn ymwybodol o'r newidiadau hyn ar yr un pryd â rhieni, ac ni roddodd hyn lawer o amser iddynt ystyried ymateb yr ysgol.

Lle ddarparodd yr awdurdod lleol a chonsortia rhanbarthol arweiniad a sianelau cymorth clir ar gyfer penaethiaid, roedd hyn yn fuddiol i'w lles. Er enghraifft, sicrhaodd rhai awdurdodau lleol gyfarfodydd rheolaidd rhwng penaethiaid â'r cyfarwyddwr addysg neu swyddogion eraill â medrau penodol, fel adnoddau dynol. Cefnogodd hyn y penaethiaid i fynd i'r afael â materion penodol wrth iddynt godi. Mewn llawer o awdurdodau lleol, cafodd penaethiaid alwadau cymorth bob pythefnos gan eu hymgynghorydd her, ac roeddent yn gwerthfawrogi'r cyfle i drafod sut roeddent yn ymdopi a cheisio cymorth pellach pan roedd ei angen arnynt. Rhoddodd ychydig iawn o awdurdodau lleol gyfleoedd i benaethiaid ymgymryd â hyfforddiant penodol ar ddelio â phroblemau iechyd meddwl i arweinwyr yn y gweithle.

## Hyrwyddo dysgu

Parhaodd materion gweithredol i gael blaenoriaeth yn ystod mis Medi. Y prif nod i arweinwyr oedd sicrhau bod yr ysgol yn gallu gweithredu'n ddiogel o un diwrnod i'r llall. Er gwaethaf yr heriau sylweddol, mae bron pob ysgol wedi llwyddo i ailgyflwyno cyfleoedd dysgu gwerthfawr i ddisgyblion o fis Medi.

### Cynllunio ar gyfer cynnydd

Mae ysgolion wedi defnyddio dulliau gwahanol i asesu cynnydd disgyblion wedi iddynt ddychwelyd i'r ysgol. Roedd y dulliau hyn yn cynnwys arsylwadau anffurfiol athrawon, profion safonedig ac offeryn asesu personol Llywodraeth Cymru. Esboniodd llawer o arweinwyr eu bod wedi cynnal asesiadau o'r fath mewn modd sensitif ac ar adeg briodol, yn dibynnu ar ba mor dda roedd disgyblion wedi ymgynefino o'r newydd â bywyd ysgol.

Roedd lleiafrif o benaethiaid o'r farn fod disgyblion wedi gwneud cynnydd addas, ar y cyfan, lle roedd teuluoedd wedi ymgymryd yn rheolaidd â dysgu o bell. Fodd bynnag, roedd mwyafrif ohonynt yn teimlo, yn gyffredinol, bod y dystiolaeth yn awgrymu bod dirywiad ym medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion. Disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2 oedd fwyaf tebygol o fod wedi gwneud

cynnydd, am fod ganddynt y medrau i fanteisio ar ddeunyddiau ysgrifenedig ac ymdopi’n well â chynnig dysgu o bell.  I’r gwrthwyneb, disgyblion yn y cyfnod sylfaen oedd leiaf tebygol o fod wedi gwneud cynnydd.

Nododd y rhan fwyaf o ysgolion mai safonau disgyblion mewn llythrennedd yw eu prif bryder.  Roedd y pryderon mwyaf cyffredin ynglŷn â medrau siarad a gwrando disgyblion mewn Cymraeg a Saesneg, fel ei gilydd.  Roedd ychydig o ddisgyblion wedi mynd yn rhy ddibynnol ar ddefnyddio geirfa a phatrymau brawddeg llafar ac anffurfiol yn ystod cyfnod estynedig i ffwrdd o’r ysgol.  Mae staff wedi canolbwyntio mwy ar atgyfnerthu dysgu blaenorol disgyblion, a bu’n rhaid iddynt adolygu medrau a addysgwyd yn flaenorol.  Nododd penaethiaid fod disgyblion wedi gwneud mwy o gynnydd pan roedd eu rhieni’n cefnogi eu dysgu yn effeithiol, neu lle roeddent yn meddu ar fedrau datblygedig wrth ddysgu’n annibynnol.

Roedd un pennaeth yn pryderu am ddiffyg cynnydd yng ngeirfa a medrau iaith disgyblion, yn enwedig y rheini yn y dosbarth derbyn.  Roedd tystiolaeth fod y grŵp hwn o ddisgyblion wedi colli cyfleoedd hollbwysig i ddatblygu eu medrau iaith yn ystod tymor yr haf.  Nododd y pennaeth fod angen targedu datblygiad lleferydd disgyblion iau.  Bu’r ysgol yn defnyddio cynorthwywyr addysgu ychwanegol a rhoddodd hyfforddiant arbenigol iddynt er mwyn eu galluogi i weithio gyda hanner dosbarth tra oedd athrawon yn gweithio’n ddwys gyda’r hanner arall i ddatblygu lleferydd ac iaith.  Yn aml, roedd cynorthwywyr addysgu yn ymgymryd â dysgu awyr agored a gweithgareddau lles fel amser cylch, a oedd yn rhoi cyfleoedd cyfoethog ychwanegol i ddisgyblion ymarfer eu medrau siarad a gwrando.

## Dysgu o fis Medi

Dywedodd ychydig o arweinwyr eu bod yn teimlo bod disgyblion yn awyddus i ddychwelyd i normalrwydd ar ddechrau mis Medi, ac erbyn canol y mis, roedd bron pob disgybl yn barod i ddysgu.  Rhoddodd ychydig iawn o ysgolion wybod i rieni cyn gwyliau’r haf y byddai eu plentyn yn aros gyda’r dosbarth a’r athro presennol am gyfnod ar ddechrau mis Medi cyn symud ymlaen.  Yn yr achosion hyn, roedd ysgolion yn teimlo eu bod mewn sefyllfa dda i fesur effaith emosiynol ac academaidd COVID-19 ar y disgyblion, a chynllunio ymyriadau amserol ar eu cyfer.

Mae bron pob ysgol wedi sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i atgyfnerthu, gwella ac ailedrych ar eu medrau llythrennedd, rhifedd a’u medrau digidol o fewn cyd-destun eang a difyr.

Mae llawer o ysgolion wedi dewis addasu eu cwricwlwm arferol ar gyfer tymor yr hydref.  Mae ychydig ohonynt wedi dewis cyflwyno themâu ysgol gyfan.  Er enghraifft, mae un ysgol wedi defnyddio llyfrau awdur poblogaidd yn sbardun ar gyfer y tymor, gyda phob dosbarth yn astudio nofel wahanol.  Mae’r dull hwn wedi annog cynllunio ar y cyd, a’i nod yw gwneud dysgu gartref yn fwy hylaw ar gyfer rhieni trwy ddarparu gweithgareddau tebyg gyda graddau amrywiol o her ar draws yr ystod oedran.  Mae ychydig iawn o ysgolion wedi cydweithio ag ysgolion eraill i gynllunio eu cwricwlwm diwygiedig.

Amlygodd ychydig o arweinwyr fod y cwricwlwm wedi’i gyfyngu rhywfaint o ganlyniad i gyfyngiadau diogelwch.  Er enghraifft, esboniodd un arweinydd nad yw disgyblion yn cael cyfleoedd i ganu yn yr ysgol mwyach, ac esboniodd arweinydd arall fod

athrawon yn ei chael yn heriol cynllunio gweithgareddau ymarferol mewn gwyddoniaeth, celf, neu addysg gorfforol. Esboniodd ychydig iawn o arweinwyr fod disgyblion yn cael llai o gyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned leol. Er enghraifft, byddai un dosbarth fel arfer yn seilio'i gwaith ar yr adeg honno o'r flwyddyn ar ymweliad ag archfarchnad leol, tra oedd dosbarth arall yn cynnal 'Dyddiau Llun Hudolus' ('Magic Mondays') lle byddai disgyblion hŷn yn dysgu yn y gymuned leol yn ystod amseroedd arferol. Mae ychydig o ysgolion wedi trefnu 'teithiau rhithwir' i ail-greu ymweliadau addysgol o'r fath, lle bo'n bosibl.

Addasodd un ysgol ei thema – 'Lliw' - y mae'n ei defnyddio'n aml ar yr adeg hon o'r flwyddyn, i ganolbwyntio mwy ar symbol yr enfys. O ganlyniad, mae staff wedi gallu cyfuno elfennau o'u cynllunio presennol gyda ffocws newydd ar ddathlu a rhoi diolch i weithwyr allweddol, fel meddygon a nyrsys. Mae hyn wedi darparu llawer o gyfleoedd i ddisgyblion siarad am brofiadau ar y cyd yn ystod cyfnod COVID-19. Mae llawer o arweinwyr wedi gweld y cyfnod hwn fel cyfnod o gyfle yn ogystal â thrallod. Er enghraifft, maent wedi nodi ffyrdd y mae delio ag effaith COVID-19 wedi cyflymu neu atgyfnerthu eu paratoadau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mae llawer ohonynt wedi gweld bod y pwyslais presennol ar les disgyblion yn cyd-fynd yn dda â gweledigaeth eu hysgol ar gyfer y maes dysgu a phrofiad 'iechyd a lles'. Mae bron pob ysgol wedi gweld gwelliant ym medrau TGCh disgyblion. Fodd bynnag, mae arweinwyr wedi nodi ffyrdd y mae'r cyfnod hwn wedi effeithio'n negyddol ar eu cynlluniau i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru hefyd. Esboniodd ychydig ohonynt fod arweiniad i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 eistedd mewn rhesi yn wynebu ymlaen yn gwneud gwaith grŵp yn anodd. Cyn COVID-19, roedd un ysgol, er enghraifft, yn ymfalchïo mewn meithrin medrau annibynnol disgyblion yn ystod y sesiynau 'ditectif dysgu' a oedd yn eu galluogi i benderfynu ar eu dull o weithio, i'r graddau y gallent ddewis gweithio mewn gwahanol rannau o'r ysgol a chydweithio â disgyblion mewn grwpiau blwyddyn eraill. Mewn llawer o ysgolion eraill, mae athrawon wedi bod yn arloesol yn addasu a chryfhau eu harfer bresennol. Er enghraifft, mae ysgol a ddatblygodd system asesu cyfoedion a oedd yn cynnwys disgyblion yn anodi llyfrau ei gilydd wedi symud y deialogau hyn ar-lein.

## Dysgu o bell a dysgu cyfunol

Dros gyfnod COVID-19, mae arweinwyr ac athrawon wedi darparu ystod o gyfleoedd dysgu o bell ar gyfer disgyblion. Mae'r rhain wedi cynnwys gweithgareddau cydamserol ac anghydamserol wedi'u cynllunio i ymgysylltu â disgyblion a chefnogi eu lles, llythrennedd, rhifedd, a'u datblygiad creadigol a chorfforol. Trwy wneud hynny, nod llawer o ysgolion fu sicrhau bod disgyblion yn manteisio ar ystod eang o weithgareddau, sy'n adlewyrchu'n agos y profiadau maent yn eu mwynhau pan fyddant yn yr ysgol.

Cysylltodd un ysgol â gwasanaethau arbenigwyr fel arlunydd graffeg a bocsiwr curiad i ddarparu gweithgareddau creadigol ar gyfer disgyblion. Roedd hyn yn llwyddiannus o ran ymgysylltu â'r holl ddisgyblion, gan gynnwys y teuluoedd sy'n anos eu cyrraedd, am fod ganddynt apêl eang. Mae ysgol arall wedi darparu gweminarau esboniadol ar gyfer rhieni ar sut i fanteisio ar y gwahanol blatfformau a chymwysiadau electronig roedd disgyblion yn eu defnyddio. Mae hefyd wedi cyflwyno gwaith trwy sioeau sleidiau syml a oedd yn cynnwys nodiadau arweiniad clir ar gyfer rhieni.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr wedi monitro darpariaeth eu hysgol yn effeithiol trwy gynnal trafodaethau anffurfiol â disgyblion a'u teuluoedd, staff a chyrff llywodraethol. Wrth i ddisgyblion a staff ddatblygu mwy o hyder yn defnyddio dulliau dysgu o bell, dechreuodd arweinwyr roi mwy o bwyslais ar werthuso ansawdd y cyfleoedd dysgu maen nhw'n eu cynnig iddynt. Mewn ychydig o achosion, dadansoddodd arweinwyr holiaduron i gasglu gwybodaeth berthnasol am elfennau ymarferol dysgu o bell. Er enghraifft, ar ôl dadansoddi adborth gan ran-ddeiliaid, cyflwynodd un ysgol sesiynau addysgu ar-lein byw i'w disgyblion.

Datblygodd mwyafrif yr arweinwyr ffocws benodol ar ddysgu digidol pan ddychwelodd disgyblion i'r ysgol. Roeddent yn cydnabod bod dull dysgu cyfunol yn cynnwys cynllun cydlynol a bwriadol ar gyfer dysgu disgyblion, sy'n cynnwys cyfuniad o ddysgu yn yr ysgol a dysgu gartref. Teimlai llawer o benaethiaid fod disgyblion a oedd yn ei chael yn anodd ymgysylltu'n effeithiol â dysgu gartref yn meddu ar fedrau dysgu annibynnol a chymhwysedd digidol gwannach. I sicrhau bod disgyblion wedi atgyfnerthu'r medrau hyn ac wedi paratoi'n well ar gyfer unrhyw gyfnodau pellach dysgu o bell, mae llawer o ysgolion wedi cynllunio ar gyfer cyfleoedd mwy rheolaidd i gyfuno gweithgareddau ar-lein â dysgu wyneb yn wyneb. Mae llawer o athrawon wedi cryfhau'r cysylltiadau rhwng eu gwaith yn y dosbarth a'u gwaith cartref er mwyn hwyluso parhad, ac maent wedi siarad â disgyblion yn rheolaidd ynglŷn â sut gallent ymdrin â thasgau penodol pe baent yn gweithio gartref. Mewn ychydig o achosion, mae ysgolion wedi trefnu rhwydweithiau cymorth cyfoedion lle gallai disgyblion gyfarfod ar-lein y tu allan i'r ystafell ddosbarth i weithio gyda'i gilydd ar dasgau a oedd yn estyniad ar y dysgu a wnaed yn yr ystafell ddosbarth.

## Dysgu proffesiynol

Mewn llawer o ysgolion, mae'r ffocws ar gyfer dysgu proffesiynol athrawon wedi bod yn datblygu eu dealltwriaeth o ddysgu effeithiol o bell. Mae ysgolion wedi darparu fideos defnyddiol 'sut i' ar gyfer athrawon i wella eu medrau digidol a'u cynorthwyo i baratoi adnoddau ar-lein ar gyfer disgyblion a'u teuluoedd. Yn aml, mae arweinwyr wedi cydweithio'n effeithiol i ddarparu ystod ddiddorol o weithgareddau dysgu proffesiynol ar gyfer pob un o'r staff. Yn yr enghreifftiau gorau, darparodd arweinwyr ystod effeithiol o sesiynau hyfforddi ar-lein ar gyfer cynorthwywyr addysgu yn ogystal ag athrawon. Er enghraifft, dewisodd cynorthwywyr addysgu weithgareddau gwerthfawr a oedd yn mynd i'r afael â'u diddordebau a'u hanghenion proffesiynol, fel 'safbwynt plant o'u chwarae' a 'deall rhifedd'. O ganlyniad, mae llawer ohonynt wedi datblygu dealltwriaeth fanylach o'u rôl.

Mae un ysgol wedi darparu sesiynau gweminar i staff ar sut i ddefnyddio'r ardal awyr agored i gefnogi lles dysgwyr. Mewn ysgol arall, fe wnaeth uwch arweinydd sydd â chyfrifoldeb am gefnogi a datblygu dysgu cyfunol, annog staff i rannu arfer effeithiol ar draws yr ysgol. Cytunodd athrawon ar y disgwyliadau gofynnol a chynyddwyd eu hyder wrth sicrhau her briodol trwy osod weithgareddau gwerth chweil i ddisgyblion.

## Arferion y cyfnod sylfaen

Dywedodd ysgolion ei bod yn aml yn fwy heriol darparu cynnig dysgu o bell effeithiol ar gyfer disgyblion y cyfnod sylfaen nag ydoedd ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 2. Adlewyrchodd hyn pa mor allweddol ydyw i oedolion ymgysylltu'n bwrpasol â disgyblion i ddatblygu eu medrau ac ymestyn eu dysgu yn ystod gweithgareddau ystafell ddosbarth. Nid yw ethos y cyfnod sylfaen, i annog disgyblion gymryd rhan mewn dysgu gweithredol a dysgu trwy brofiad, bob amser yn addas i ddisgyblion sy'n defnyddio deunydd dysgu ar-lein wedi'i recordio ymlaen llaw. Roedd athrawon yn dangos dychymyg gwych wrth wynebu'r heriau hyn, gan awgrymu ystod o weithgareddau y gallai rhieni eu gwneud gartref gyda'u plant yn unol ag arfer effeithiol egwyddorion y cyfnod sylfaen. Mewn ychydig o ysgolion, penderfynodd athrawon fod angen iddynt ddarparu sesiynau byw lle gallent gyfathrebu'n uniongyrchol â disgyblion a rhieni, yn ogystal â darparu sesiynau wedi'u recordio ymlaen llaw iddynt, neu anfon gwaith gartref atynt trwy'r e-bost neu'r post.

Mewn un ysgol, penderfynodd staff y dosbarth meithrin a derbyn yn gyflym iawn i ddarparu sesiynau byw i rannu gwybodaeth, cyflwyno amser cylch ac awgrymu gweithgareddau hwyliog ac ymarferol i'r disgyblion. Gwyliodd rhieni'r sesiynau hyn gyda'u plant, a rhoddodd gyfle iddynt holi cwestiynau a cheisio unrhyw gymorth a oedd ei angen arnynt. Roedd yr adborth gan rieni yn eithriadol o gadarnhaol, a gweithredodd yr ysgol yn unol â'u hawgrymiadau i addasu'r sesiynau, a'u gwella. Roedd athrawon yn gallu deall diddordebau penodol disgyblion ac awgrymu gweithgareddau eraill os nad oedd y disgybl yn ystyried eu hawgrymiadau cychwynnol yn ddifyr iawn.

Ers dychwelyd i'r ysgol, bu'n rhaid i bob ysgol ystyried yn ofalus sut i strwythuro dysgu i ddiwallu anghenion disgyblion yn y cyfnod sylfaen. Cydnabu'r rhan fwyaf o arweinwyr bwysigrwydd cynnal addysgeg y cyfnod sylfaen tra'n addasu amgylchedd yr ystafell ddosbarth ac adnoddau i leihau lledaeniad posibl COVID-19. Pan oedd hyn yn effeithiol iawn, roedd ysgolion yn cynyddu eu defnydd o'r gofod awyr agored i wneud y gorau o'r amser roedd disgyblion yn ei dreulio yno. Trwy wneud hyn, fe wnaethant ystyried yn ofalus sut gallent wneud y defnydd gorau o'r amgylchedd awyr agored i hyrwyddo dysgu, ac roeddent yn aml yn ymestyn eu darpariaeth bresennol. Er enghraifft, ystyriodd un ysgol sut gallai ymestyn ei hamgylchedd awyr agored ar gyfer ei holl ddisgyblion, a gofynnodd i'r awdurdod lleol gefnogi athrawon i gynnal asesiadau risg ar yr ardaloedd presennol ac ardaloedd a ddatblygwyd ganddynt o'r newydd.

Dywedodd llawer o arweinwyr eu bod yn parhau i allu darparu dysgu gweithredol a dysgu yn seiliedig ar chwarae i ddisgyblion y cyfnod sylfaen, er bod eu hystafelloedd dosbarth yn edrych ychydig yn wahanol a bod ganddynt gyfundrefnau glanhau estynedig a mwy rheolaidd. Darparodd rhai ysgolion gyflenwadau unigol o dywod a thoes ar gyfer gweithgareddau penodol i ddisgyblion, ond roedd eraill yn osgoi gwneud hyn. Roedd rhai ysgolion yn parhau i anfon llyfrau darllen gartref a'u rhoi mewn cwarantin am 72 awr wedi iddynt ddod yn ôl. Roedd ysgolion eraill yn annog rhieni i fanteisio ar ddeunyddiau darllen ar-lein, ac yn darparu gwybodaeth i'w galluogi i wneud hyn.

Roedd un ysgol wedi rhedeg caffi darllen am y 15 mlynedd ddiwethaf. Symudodd hwn ar-lein. Recordiodd y pennaeth a'r dirprwy bennaeth fideos ohonyn nhw eu hunain yn darllen storïau i hyrwyddo lles, ac i ddisgyblion glywed storïau yn y Gymraeg. Recordiodd athrawon meithrin a derbyn eu hunain yn adrodd hwiangerddi, gan gynnwys caneuon a rhigymau Cymraeg syml.

## Y Gymraeg

Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, nododd y rhan fwyaf o athrawon fod medrau Cymraeg llawer o ddisgyblion wedi dirywio yn ystod y cyfnod hir o'r ysgol. Roedd disgyblion o gartrefi lle na chaiff llawer o'r Gymraeg ei siarad, os o gwbl, yn dangos dirywiad yn eu hyder a'u gallu i siarad Cymraeg. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion hyn wedi canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu'r medrau hyn ers mis Medi. Mae llawer ohonynt wedi neilltuo gweithgareddau dyddiol penodol ar gyfer disgyblion, fel trafodaethau llafar, grwpiau darllen â ffocws, a gemau buarth anffurfiol. Darparodd hyn gyfleoedd cyson iddynt adennill eu hyder yn defnyddio'r Gymraeg. Trefnodd ychydig o ysgolion berfformiadau rhithwir gan gwmnïau drama addysgol a gweithdai llythrennedd gydag awduron a beirdd enwog fel gweithgareddau difyr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ymhellach.

Er gwaethaf yr heriau, mae llawer o ysgolion wedi canolbwyntio ar gynnal ystod o weithgareddau allgyrsiol sydd wedi eu cynllunio i annog disgyblion i gymryd rhan a mwynhau eu hunain trwy gyfrwng y Gymraeg. Er enghraifft, cynhaliodd un ysgol ei heisteddfod flynyddol yn rhithwir, gan ddarparu ystod o weithgareddau ar gyfer disgyblion a oedd yn cefnogi eu datblygiad iaith a'u hymwybyddiaeth ddiwylliannol yn llwyddiannus. Mae llawer o ysgolion wedi gweithio gyda phartneriaid, fel y 'Mentrau Iaith' a 'Mudiad yr Urdd' i annog rhieni a'u plant i gyfranogi yn yr iaith, yn enwedig wrth gefnogi'r disgyblion iau a gafodd eu heffeithio fwyaf trwy beidio â gallu mynd i'r ysgol.

Mewn un ysgol, meddyliodd y 'Cyngor Disgyblion Cymraeg' am syniadau ynglŷn â sut oedd orau i gynorthwyo disgyblion nad oeddent yn siarad Cymraeg gartref. Fe wnaethant rannu dolenni at amrywiaeth o adnoddau a darparu deunyddiau cymorth y gallai disgyblion a rhieni eu defnyddio.

Mae llawer o ysgolion wedi bod yn awyddus i gynnal effaith mentrau'r 'Siarter Iaith' a 'Cymraeg Campus' er mwyn parhau i godi proffil yr iaith. Er enghraifft, mae aelodau o'r corff llywodraethol mewn un ysgol wedi cynorthwyo'r staff i drefnu wythnos o ddathlu cerddoriaeth Gymraeg gyfoes boblogaidd, a fwynhawyd gan y disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth a ddarperir gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ledled Cymru i wella a chynnal medrau Cymraeg disgyblion wrth i ysgolion ailagor. Maent o'r farn fod timau ymgynghorol Cymraeg yn aml wedi darparu llawer o adnoddau ar eu cyfer, ac mae staff wedi gwerthfawrogi hyn. Yn gyffredinol, mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion hŷn sydd newydd ddechrau mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi cael ei chynnal yn effeithiol trwy ddarparu ystod o becynnau cymorth wedi eu teilwro ar eu cyfer.

## Cymorth ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed

Mae bron pob ysgol wedi adnabod disgyblion yr oeddent yn eu hystyried yn agored i niwed yn ystod tymor yr hydref. Gallai hyn fod o ganlyniad i bryderon am eu lles, neu am fod ysgolion o'r farn fod eu dysgu wedi cael ei effeithio'n anghymesur yn ystod y pandemig. Nid y disgyblion hyn oedd, bob amser, y rhai y nodwyd eu bod yn agored i niwed cyn y cyfnod clo ym mis Mawrth. O fis Medi ymlaen, mae ysgolion wedi cefnogi eu disgyblion sy'n agored i niwed trwy hyrwyddo eu lles, addasu'r cwricwlwm, a chreu amgylchedd diogel ar eu cyfer.

### Hyrwyddo lles

Ers dychwelyd i'r ysgol, mae staff wedi blaenoriaethu iechyd a lles disgyblion ac wedi parhau i fonitro hyn, yn enwedig ar gyfer y rhai y nodwyd eu bod yn agored i niwed. Mae dychwelyd i addysg amser llawn wedi bod yn her i ychydig o ddisgyblion. Felly, ar ddechrau mis Medi, y prif ffocws i'r rhan fwyaf o ysgolion fu darparu trefn ddysgu sefydlog ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed. Mae llawer o'r disgyblion hyn wedi elwa ar bwyslais ysgolion ar hyrwyddo lles trwy'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae athrawon wedi darparu cyfleoedd i ddisgyblion siarad, meithrin perthnasoedd, ac ymgymryd â gweithgareddau corfforol, tasgau creadigol a dysgu yn yr awyr agored.

Mae staff mewn llawer o ysgolion wedi darparu cymorth ychwanegol i deuluoedd sy'n agored i niwed i'w hannog i sicrhau bod eu plant yn mynychu'r ysgol. Er enghraifft, cynhaliwyd ymweliadau ar stepen y drws a galwadau ffôn â'r teuluoedd hyn i sicrhau eu bod yn deall pwysigrwydd presenoldeb cyson yn yr ysgol. O ganlyniad i'r perthnasoedd cadarnhaol a sefydlwyd rhwng yr ysgol a rhieni yn ystod cyfnod COVID-19, pan na allai disgyblion fynychu, barn llawer o ysgolion yw bod staff wedi magu hyder ac ymddiriedaeth rhieni, sydd wedi arwain at effaith gadarnhaol ar bresenoldeb disgyblion. Yn ôl penaethiaid, mewn ychydig iawn o achosion, mae rhieni wedi dewis addysgu eu plant gartref, ac wedi tynnu eu henwau oddi ar y gofrestr.

Mae un ysgol wedi gwerthfawrogi cyswllt agosach na'r arfer â'i Swyddog Lles Addysg ers mis Medi. Ers dechrau'r tymor, mae'r swyddog wedi bod yn yr ysgol am ddiwrnod yr wythnos, gan weithio'n agos â staff gweinyddol i fynd i'r afael ag achosion penodol o absenoldeb. Mae'r pennaeth o'r farn fod hyn wedi bod yn fuddiol i rieni sy'n arddangos arwyddion o or-bryder ynghylch anfon eu plant yn ôl i'r ysgol. Ers yr ymyrraeth hon, mae'r ysgol wedi sylwi ar gynnydd ym mhresenoldeb disgyblion sy'n agored i niwed.

### Y cwricwlwm a dysgu

Mae ysgolion wedi sôn am amrywiol lefelau o ymgysylltu yn nysgu disgyblion yn ystod cyfnod COVID-19 pan oedd ysgolion ar gau, am amrywiaeth o resymau. O ganlyniad, dywed llawer o benaethiaid fod y bwlch dysgu rhwng lleiafrif o ddisgyblion sy'n agored i niwed a'u cyfoedion wedi ehangu. I'r gwrthwyneb, cydnabu ychydig ohonynt fod ychydig o ddisgyblion sy'n agored i niwed a ddychwelodd i'r ysgol ym mis Medi wedi gwneud cynnydd da. Yn aml, roedd hyn wedi'i briodoli i achosion lle

roedd rhieni wedi gweithio'n agos gyda'u plant yn gyson.  Sylwodd ychydig o ysgolion ar welliannau yn hyder disgyblion ar ôl defnyddio dulliau dysgu ar-lein, a oedd yn galluogi disgyblion sy'n agored i niwed i weithio ar eu cyflymdra eu hunain, a gyda llai o bethau i darfu arnynt.

Mynegodd llawer o benaethiaid bryderon fod medrau disgyblion iau sy'n agored i niwed wedi dirywio yn fwy na'u cyfoedion.  Roedd medrau siarad a gwrando, hunan-reoleiddio a medrau cymdeithasol, fel cymryd eich tro a rhannu, yn feysydd pryder penodol.  Mae llawer o ysgolion wedi ymateb i hyn trwy addasu eu cwricwlwm ar gyfer disgyblion iau i gynnwys mwy o dasgau sy'n gysylltiedig â datblygiad personol a chymdeithasol.

Sylwodd un ysgol fod llawer o'i disgyblion sy'n agored i niwed yn llai parod i chwarae yn yr ardal allanol, a'u bod yn ddi-hyder.  Mae'r ysgol wedi datblygu gweithgareddau sy'n rhoi pwyslais cryf ar chwarae yn yr awyr agored gan ddefnyddio deunyddiau a gwrthrychau naturiol, bob dydd, sy'n ysgogi creadigrwydd a dychymyg disgyblion.  Mae'r ysgol yn datblygu prosiect hefyd i ddatblygu medrau gwrando a siarad disgyblion at wahanol ddibenion.  Mae staff o'r farn fod hyn yn hanfodol gan fod llawer o ddisgyblion wedi cael llai o gyfleoedd i ddefnyddio eu medrau iaith yn ffurfiol neu'n helaeth yn ystod eu cyfnod o'r ysgol.

Yn ogystal â'u ffocws ar sicrhau lles disgyblion, mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi cynyddu'r pwyslais ar wella medrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol disgyblion.  Yn aml, maent wedi darparu cymorth ychwanegol i'r disgyblion hynny nad oeddent yn gallu ymgymryd yn llawn â gweithgareddau dysgu a drefnwyd yn ystod y cyfnod pan roeddent i ffwrdd o'r ysgol.  Cydnabu staff fod disgyblion sy'n agored i niwed, yn benodol, yn aml yn cael anhawster yn ymgymryd â dysgu ar-lein o ganlyniad i'w medrau digidol a'u medrau dysgu annibynnol cyfyng.  Oherwydd hyn, mae llawer o ysgolion wedi integreiddio a chynyddu'r defnydd o dechnoleg yn yr ystafell ddosbarth i sicrhau ei fod yn rhan naturiol o'r broses ddysgu.  Mewn ychydig o achosion, mae ysgolion wedi darparu sesiynau hyfforddi i rieni i'w helpu i ddatblygu medrau i gefnogi eu plant gartref.  Mewn un ysgol, defnyddiodd athrawon gyfleusterau fideo gynadledda i ddangos meddalwedd addysgol i rieni, a darparu cynghorion iddynt ar ffyrdd i sicrhau bod eu plant yn cadw'n ddiogel ar-lein.

Mae penaethiaid wedi canfod, mewn llawer o achosion, nad oedd modd cynnal grwpiau ymyrraeth yn unol â'r drefn arfero.  Mae hyn naill ai o ganlyniad i ddiffyg lle, neu i sicrhau bod disgyblion yn cadw'n ddiogel o fewn eu 'swigod'.  O ganlyniad, mae llawer ohonynt bellach yn lleoli eu staff cymorth mewn dosbarthiadau yn hytrach na'u bod yn cynnal grwpiau ymyrraeth bach ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed.  Mewn ychydig o achosion, mae penaethiaid wedi dweud y bu hyn yn gadarnhaol ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed gan ei fod yn hyrwyddo parhad ac yn tarfu llai ar eu dysgu.  Mae ychydig o ysgolion wedi parhau i gynnal sesiynau grŵp bach y tu allan i'r ystafell ddosbarth, gan wneud addasiadau i ystyried y canllawiau gweithredol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

### Iechyd a diogelwch

Mae bron pob un o'r penaethiaid wedi gweithio'n agos gyda'u hawdurdodau lleol i sicrhau bod eu hysgolion wedi parhau yn lleoedd diogel a chynhwysol ar gyfer eu

disgyblion sy'n agored i niwed. Mae hyn wedi cynnwys cydweithio ar asesiadau risg ac ymdrin â chynlluniau i gefnogi unigolion, lle bo angen. Mae llawer o arweinwyr wedi gwerthfawrogi ystod yr asesiadau risg eithriadol o fanwl a ddarparwyd gan eu hawdurdodau lleol. Sicrhaodd arweinwyr bod disgyblion sy'n agored i niwed yn deall ac yn dilyn arweiniad ar iechyd a diogelwch. Maent wedi gwerthfawrogi gwaith swyddogion awdurdodau lleol, yn arbennig wrth ddarparu cymorth penodol iddynt ar ystod o faterion. Mae'r rhain yn cynnwys mewnbwn clir gan seicolegwyr addysg, athrawon ymgynghorol anghenion addysgol arbennig a gweithwyr iechyd proffesiynol i gyd-ysgrifennu asesiadau risg a chynlluniau gofal iechyd ar gyfer disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion sy'n agored i niwed wedi bod mewn sefyllfa dda i lynu at ofynion cadw pellter cymdeithasol, hylendid anadlol da a golchi dwylo'n rheolaidd.

Mewn llawer o ysgolion, roedd cynorthwywyr addysgu yn modelu arferion diogel ac yn treulio amser gyda disgyblion unigol i roi tawelwch meddwl iddynt. Roeddent yn rhoi cyfle iddynt gyfarwyddo â'r trefniadau newydd hyd nes eu bod yn gyfforddus â nhw. Er enghraifft, roeddent yn defnyddio storïau cymdeithasol ac amserlenni gweledol i gynorthwyo disgyblion â chyflwr sbectrwm awtistig i ddeall sut i gadw'n ddiogel, ac esbonio'r rhesymau pam mae angen iddynt wneud hynny. Creodd un ysgol 'hafan hedd' trwy addasu gofod o fewn yr ysgol, sydd bellach yn ystafell gyfforddus lle gall staff gefnogi lles eu disgyblion sy'n agored i niwed. Addasodd ysgol arall ei gofodau addysgu i ymgorffori ardaloedd synhwyraidd i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu cymhleth, wrth iddynt weithio yn eu 'swigod' o ddisgyblion.

Nododd un ysgol anawsterau posibl yn cyflwyno cymorth i ddisgyblion sy'n agored i niwed mewn gwahanol swigod. Felly, cyflwynodd system hierarchaidd lle roedd cynorthwywyr addysgu â medrau penodol, fel cymorth emosiynol neu gymorth â llythrennedd neu rifedd, yn goruchwylio gwaith nifer o gynorthwywyr addysgu yn gweithio'n gyfan gwbl o fewn swigod penodol.

## Dysgu proffesiynol

O fis Medi, mae ysgolion wedi defnyddio cyfuniad o sesiynau wyneb yn wyneb a sesiynau ar-lein i ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol ar gyfer staff i gefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed. Er enghraifft, mae staff mewn llawer o ysgolion wedi derbyn hyfforddiant i'w helpu i fod yn 'ystyriol o drawma' ac i ystyried sut gallent addasu eu harferion fel bod amgylchedd yr ysgol yn fan sy'n hyrwyddo iechyd meddwl iach pob un o'r disgyblion a'r staff.

Yn aml, mae ysgolion wedi manteisio ar hyfforddiant arbenigol a gynigir gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Er enghraifft, darparodd gwasanaeth seicoleg addysg un awdurdod lleol hyfforddiant ar gyfer cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol, athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu ar sut i gefnogi disgyblion sydd wedi eu heffeithio gan brofedigaeth, trawma neu or-bryder. Roedd hyfforddiant arbenigol arall yn cynnwys ffyrdd o gynorthwyo disgyblion ag anawsterau cyfathrebu i ymgymryd â dysgu ar-lein, a sut i gefnogi plant sydd wedi eu mabwysiadu a phlant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Mae ysgolion wedi cyfuno'r ddarpariaeth hon â dulliau eraill, fel defnyddio adnoddau ar Hwb, defnyddio arweiniad gan

asiantaethau'r sector cyhoeddus, a defnyddio arbenigedd eu staff eu hunain i gyflwyno gweithgareddau dysgu proffesiynol staff yn fewnol.

Lle bo'n briodol, mae ysgolion wedi parhau i gynnal eu rhaglenni dysgu i gefnogi lles disgyblion a oedd eisoes wedi dechrau cyn i ysgolion gau o ganlyniad i COVID-19. Roedd y rhain eisoes wedi cael eu cysylltu â'u blaenoriaethau gwella ysgol, er enghraifft cynorthwyo disgyblion sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, a oedd yn parhau i fod yn berthnasol.  Pan fydd penaethiaid yn arweinwyr ar fwy nag un ysgol, maent yn aml wedi rhannu gwybodaeth a medrau arbenigol staff i gefnogi darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig ar draws lleoliadau.  Mewn ychydig o achosion, mae arweinwyr wedi annog ymarferwyr i fanteisio ar weminarau am ddim ac ymgymryd â phrosiectau ymholi wrth y ddesg i gefnogi eu hanghenion dysgu proffesiynol unigol.

Yn ystod y cyfnod clo, newidiodd un ysgol ei dull dysgu proffesiynol.  Anogodd arweinwyr y staff i ymgymryd â phrosiectau ymholi personol ac adrodd yn ôl i'w gilydd yn rheolaidd am yr hyn roeddent wedi ei ddysgu.  Roedd yr ymholiadau hyn, a oedd yn canolbwyntio ar sut i gefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed, yn cael eu cynnal wrth y ddesg i ddechrau.  Wedi i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi, rhoddodd staff eu dysgu newydd ar waith trwy beilota strategaethau i gefnogi unigolion a grwpiau o ddysgwyr.  Roedd y prosiectau yn canolbwyntio ar destunau fel cymorth ar gyfer disgyblion â chyflwr sbectrwm awtistig, gwrando ar blant, darparu cymorth ymddygiadol a defnyddio technegau ymlacio i gefnogi lles. Roedd y pennaeth o'r farn fod hyn wedi helpu rhoi mwy o berchnogaeth i staff dros gynnwys a chyfeiriad eu dysgu proffesiynol, tra hefyd yn mynd i'r afael â meysydd ysgol gyfan ehangach a oedd angen eu gwella.

### Gwasanaethau arbenigol

At ei gilydd, mae ysgolion wedi gweithio'n agos gydag asiantaethau partner i sicrhau cymorth i ddisgyblion sy'n agored i niwed yn ystod amgylchiadau heriol.  Mae llawer o arweinwyr wedi elwa ar y modd y mae gweithio mewn clystyrau wedi eu helpu i gefnogi disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.  Er enghraifft, ffurfiodd grŵp o gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol berthnasoedd cefnogol i rannu arbenigedd a darparu cymorth effeithiol i'w gilydd.

Roedd ysgolion yn gweld sesiynau 'galw i mewn' rhithwir rheolaidd gyda gweithwyr proffesiynol ym maes anghenion dysgu ychwanegol yn werthfawr.  Lle bo modd, o fis Medi, mae athrawon arbenigol fel timau cymorth ymddygiad neu athrawon ar gyfer disgyblion â nam ar eu golwg neu nam ar eu clyw wedi dechrau ymweld ag ysgolion eto.

Mae ychydig o ysgolion wedi nodi bod ganddynt fwy o ddisgyblion a fyddai'n manteisio o gael cymorth gan wasanaethau cwnsela.   Mewn ychydig o ysgolion, mae cwnselwyr a gweithwyr cymorth arbenigol eraill wedi ailddechrau ymweld ag ysgolion.  Pan nad oedd modd cynnal ymweliadau ar y safle, mae ysgolion wedi elwa ar gyfarfodydd rhithwir.

Mae llawer o arweinwyr wedi dweud bod gwasanaethau cymorth lles wedi darparu cyngor i deuluoedd â phlant ifanc sydd wedi dod yn llai abl i reoli eu hanghenion

hunanofal a hylendid sylfaenol eu hunain yn dilyn y cyfnod i ffwrdd o'r ysgol. Mae ysgolion wedi cyfeirio teuluoedd at ffynonellau cymorth eraill yn ogystal. Er enghraifft, mae nifer o ysgolion yn gweithio ag elusennau cenedlaethol neu leol i helpu teuluoedd i ddefnyddio banciau bwyd.

### Prosesau statudol

Yn gyffredinol, cadarnhaodd ysgolion fod prosesau cynnal asesiadau statudol ar ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig wedi parhau trwy gydol cyfnod COVID-19. Mae hyn hefyd yn wir am gyfarfodydd adolygu blynyddol y mae ysgolion wedi eu cynnal o bell mewn llawer o achosion.

Dywedodd mwyafrif yr arweinwyr fod nifer y disgyblion sy'n destun pryderon amddiffyn plant wedi codi yn ystod cyfnod COVID-19, yn aml o ganlyniad i atgyfeiriadau gan asiantaethau partner. Roedd penaethiaid yn canmol y wybodaeth amserol a gânt trwy Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd wedi i'r heddlu ymweld â chartrefi teuluol. Mae'r drefn hon o rannu gwybodaeth yn amserol yn galluogi ysgolion i ddarparu cymorth priodol i ddisgyblion. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i waith 'Operation Encompass', sy'n rhoi gwybodaeth i ysgolion o fewn 24 awr os yw disgybl wedi bod yn gysylltiedig ag achos o drais domestig, neu wedi bod yn dyst iddo.

## Cyllid recriwtio, adfer a chodi safonau (RRRS)

Erbyn diwedd mis Medi, roedd y rhan fwyaf o ysgolion wedi cynllunio sut roeddent yn bwriadu defnyddio'r cyllid recriwtio, adfer a chodi safonau i gefnogi eu disgyblion. Roedd yr ysgolion prin nad oeddent wedi datblygu cynlluniau i ddefnyddio'r grant eto yn awyddus i aros hyd nes bod disgyblion yn cyfarwyddo â'r arferion newydd cyn asesu ble roedd yr angen mwyaf. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ysgolion wedi defnyddio'r cyllid hwn i gyflogi mwy o staff neu i gynyddu oriau gwaith aelodau staff presennol. Roedd hyn yn cynnwys athrawon a chynorthwywyr addysgu, fel ei gilydd.

Sylweddolodd un ysgol fod llawer o ddisgyblion yn ei chael yn anodd ymgymryd â dysgu o bell. I ymateb i hynny, trefnodd staff sesiynau ymgysylltu i deuluoedd er mwyn i ddisgyblion a rhieni allu gwella eu medrau digidol gyda'i gilydd, gan eu galluogi i fanteisio ar yr adnoddau a ddarperir gan yr ysgol trwy eu platfform ar-lein.

Mae llawer o ysgolion wedi rhoi blaenoriaeth ar adfer y dirywiad a fu yn y cynnydd a wnaeth llawer o ddisgyblion yn eu medrau llythrennedd a rhifedd rhwng mis Mawrth a mis Medi. Mae bron pob ysgol wedi defnyddio'r staff ychwanegol i gefnogi disgyblion i ddatblygu'r medrau hyn. Mae llawer ohonynt wedi rhoi mwy o bwyslais na'r arfer ar ddatblygu medrau siarad a gwrando disgyblion, yn enwedig yn y cyfnod sylfaen. Mae ychydig o ysgolion wedi blaenoriaethu cymorth emosiynol ar gyfer disgyblion a hyrwyddo eu medrau dysgu annibynnol. Mae llawer o ysgolion wedi ymestyn eu defnydd o'u pecynnau cymorth presennol i dargedu unigolion neu ddisgyblion mewn grwpiau bach. Bu ychydig o ysgolion llai yn gweithio fel clwstwr i

gydgyfrannu eu hadnoddau, trwy weithio gyda'i gilydd i rannu arbenigedd aelod staff newydd amser llawn, er enghraifft.

Adnabu un ysgol grŵp o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen a fyddai'n elwa ar gael cymorth ychwanegol mewn llafaredd a darllen. Roedd hyn yn cynnwys sawl disgybl a oedd yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol a disgyblion duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME). Defnyddiodd yr ysgol hon ei grant i ryddhau arbenigwr iaith profiadol o'i dosbarth er mwyn i'r disgyblion hyn allu derbyn eu haddysg mewn grŵp llai am gyfnod byr. Mynychodd hi gyfarfodydd cynllunio gyda'r athrawon dosbarth i sicrhau bod y disgyblion hyn yn parhau i gael cyfleoedd dysgu go iawn yn eu cyd-destun, yn ogystal â'r ymyriadau penodol a gynigir iddynt.

Mae ychydig iawn o arweinwyr wedi mynegi pryderon am y pwysau ychwanegol ar gyllidebau ysgol a achoswyd gan COVID-19. Dywedon nhw, er eu bod yn croesawu'r cyllid ychwanegol i recriwtio, adfer a chodi safonau, eu bod yn parhau i wynebu heriau ariannol.

## Atodiad

| Consortiwm | Awdurdod lleol | Ysgolion |
|---|---|---|
| **CCD** | Pen-y-bont ar Ogwr | 7 |
| | Bro Morgannwg | 7 |
| | Rhondda Cynon Taf | 10 |
| | Merthyr Tudful | 4 |
| | Caerdydd | 14 |
| | Cyfanswm CCD | 42 |
| **GCA** | Caerffili | 10 |
| | Blaenau Gwent | 3 |
| | Torfaen | 3 |
| | Sir Fynwy | 3 |
| | Casnewydd | 7 |
| | Cyfanswm GCA | 26 |
| **ERW** | Powys | 12 |
| | Ceredigion | 5 |
| | Sir Benfro | 8 |
| | Sir Gaerfyrddin | 12 |
| | Abertawe | 11 |
| | Cyfanswm ERW | 48 |
| **GwE** | Ynys Môn | 5 |
| | Gwynedd | 10 |
| | Conwy | 7 |
| | Sir Ddinbych | 5 |
| | Sir y Fflint | 8 |
| | Wrecsam | 7 |
| | Cyfanswm GwE | 42 |
| | Castell-nedd Port Talbot | 8 |
| | Cyfanswm Castell-nedd Port Talbot | 8 |
| **Yr holl ddarparwyr cynradd** | | 166 |
| | | |
| **Meincnod prydau ysgol am ddim (PYDd am 3 blynedd, 2018-2020)** | | |
| Hyd at, ac yn cynnwys, 8% | | 46 |
| Dros 8% a hyd at, ac yn cynnwys, 16% | | 47 |
| Dros 16% a hyd at, ac yn cynnwys, 24% | | 28 |
| Dros 24% a hyd at, ac yn cynnwys, 32% | | 19 |
| Dros 32% | | 26 |
| Cyfanswm | | 166 |